Senedd Cymru
**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd**

# Ethol Senedd fwy amrywiol
## Cofnod o'r digwyddiad trafod

Gorffennaf 2020

Sefydlwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd i ymchwilio i argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ynglŷn â maint y Senedd a sut y mae'r Aelodau'n cael eu hethol.

Er mwyn llywio ei waith ar amrywiaeth y Senedd, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad trafod preifat ar 10 Chwefror 2020 gyda chynrychiolwyr sefydliadau sy'n eiriol dros grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Dyma'r tri chwestiwn a drafodwyd:

1. A yw amrywiaeth Aelodau o'r Senedd, neu eu diffyg amrywiaeth, yn effeithio ar y ffordd y mae'r Senedd yn craffu ac yn deddfu neu ei rôl fel corff sy'n cynrychioli pobl Cymru?
2. Beth yw'r prif resymau nad yw pobl o gefndiroedd amrywiol yn dewis sefyll yn etholiadau'r Senedd?
3. Pa fesurau deddfwriaethol a gwirfoddol penodol y dylid eu hystyried er mwyn annog amrywiaeth yn y Senedd?

Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r themâu sy'n codi o'r trafodaethau.

## Cwestiwn 1: A yw amrywiaeth Aelodau o'r Senedd, neu eu diffyg amrywiaeth, yn effeithio ar y ffordd y mae'r Senedd yn craffu ac yn deddfu neu ei rôl fel corff sy'n cynrychioli pobl Cymru?

### Cynrychiolaeth ac eiriolaeth

**1.** Dadleuodd rhai cyfranogwyr nad yw aelodaeth o'r Senedd yn cynrychioli pobl Cymru yn llawn. Nodwyd nad oes menywod BAME yn y Senedd a bod pobl yn cael eu difreinio os nad yw sefydliadau'n adlewyrchu'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Pwysleisiwyd yr her o gynrychioli grwpiau gwahanol ac arsylwodd un cyfranogwr fod digwyddiadau diweddar sy'n gysylltiedig â Brexit bellach yn golygu nad yw gwladolion yr UE yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n dda yn y broses wleidyddol.

**2.** Dywedodd cyfranogwyr yn y drafodaeth fod ehangder y pynciau a drafodir gan y Senedd wedi cynyddu a datblygu, ond y byddai aelodaeth fwy amrywiol yn helpu i sicrhau bod busnes y Senedd yn cynrychioli buddiannau'r holl bobl yng Nghymru. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod pobl yn ymddieithrio â'r broses wleidyddol os nad yw'r pynciau sy'n cael sylw gan y Senedd o bwys i rai rhannau o'r gymdeithas.

**3.** Crybwyllwyd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 fel enghraifft o ddarn o ddeddfwriaeth na fyddai wedi cael ei wneud heb Senedd gymharol gytbwys rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, mynegwyd pryder y gall amrywiaeth cynrychiolaeth encilio, yn ogystal â chynyddu ac nid yw cyfeillion amrywiaeth (h.y. eiriolwyr ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol) yn cymryd lle aelodaeth wirioneddol gynrychioliadol. Gwelodd rhai cyfranogwyr wrthgyferbyniad pendant rhwng yr hyn a oedd yn gydbwysedd cymharol gadarnhaol rhwng y rhywiau yn y Senedd yn eu barn hwy a chynrychiolaeth pobl o gefndiroedd BAME.

**4.** Defnyddiodd y cyfranogwyr hil fel enghraifft i ddangos canlyniadau diffyg amrywiaeth gan y nodwyd mai dim ond yn 2019 y cynhaliwyd dadl gyntaf y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ar hil. Dywedodd cyfranogwyr fod profiad uniongyrchol yn hanfodol wrth lywio ffocws busnes y Senedd. Heb brofiad uniongyrchol a chynrychiolaeth amrywiol, dadleuwyd, bydd yn anodd i Aelodau o'r Senedd wir ddeall goblygiadau eu penderfyniadau. Nodwyd, heb gael profiad o rwystrau cymdeithasol penodol, ei bod yn anodd i lunwyr polisi ddeall pa heriau y mae pobl mewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn eu hwynebu ac, felly, yr ystod lawn o atebion polisi neu ddeddfwriaeth posibl a all fod yn effeithiol.

Y risg yw bod llunio polisïau, er gwaethaf bwriadau da, yn dod yn nawddoglyd ac nid yw’n ystyried anghenion grwpiau lleiafrifol.

**5.** Cytunwyd y byddai ethol Senedd fwy amrywiol yn helpu i wella prosesau llunio polisïau, deddfu a chraffu. Fodd bynnag, nododd rhai cyfranogwyr y gall fod yn anodd cynrychioli pob grŵp lleiafrifol mewn Senedd â 60 Aelod. Nodwyd y gall y broblem hon ddod yn arbennig o amlwg ym mhwyllgorau'r Senedd, yn enwedig y rhai ag aelodaeth fach. Fodd bynnag, dywedodd cyfranogwyr eraill fod gan bwyllgorau'r Senedd hanes da o ymgysylltu â'r cyhoedd a cheisio mewnbwn gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

**6.** Roedd rhai pobl a oedd yn rhan o'r drafodaeth o'r farn bod y ffordd y mae pleidiau gwleidyddol a Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb yn arwydd o’r broblem. Plediodd rhai cyfranogwyr yr achos na ddylid ystyried 'cydraddoldebau' fel portffolio penodol ond, yn lle hynny, eu hymgorffori ym mhob agwedd ar y broses ddeddfwriaethol a chraffu. Dywedodd rhai cyfranogwyr fod rhywfaint o ddeddfwriaeth gadarnhaol wedi'i rhoi ar waith, ond nad oedd y camau gweithredu bob amser wedi bod yn effeithiol.

**7.** Roedd cyfranogwyr eraill yn teimlo mai o ganlyniad i wleidyddion beidio â rhoi sylw i’w buddiannau oedd difaterwch gwleidyddol ymhlith pobl ifanc, er bod y drafodaeth hefyd wedi nodi bod y Senedd wedi dangos parodrwydd i nodi materion sy’n ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

**8.** Nododd rhai cyfranogwyr fod yr her o sicrhau cynrychiolaeth effeithiol ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y Senedd yn adlewyrchiad o'r gymdeithas ehangach. Arsylwyd y bydd yn rhaid i'r Senedd arwain ynghylch esbonio i'r cyhoedd pam mae'r agenda hon yn bwysig gan ei bod yng nghyd-destun adlach yn erbyn ymdrechion i wella hawliau grwpiau lleiafrifol. Rhybuddiodd rhai cyfranogwyr na all y Senedd gael ei harwain gan farn y cyhoedd oherwydd na fydd rhai rhannau o gymdeithas yng Nghymru byth yn cefnogi mesurau sy'n ceisio gwella amrywiaeth a chynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol.

## Ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

**9.** Dadleuodd rhai cyfranogwyr fod gan anabledd a phobl anabl broffil arbennig o isel yng nghyd-destun y Senedd a gwleidyddiaeth Cymru. Credwyd bod pwysigrwydd cynnig cyfleoedd i bobl ag anableddau ymgysylltu â gwleidyddion mewn ffyrdd megis cysgodi yn un ffordd o dynnu sylw at heriau y mae angen i bolisi cyhoeddus fynd i'r afael â hwy.

**10.** Nododd un cyfranogwr y bydd ethol ystod amrywiol o Aelodau o'r Senedd yn helpu i ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl yn ei gwaith oherwydd bod pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus yn mynd at rywun sy'n adnabyddadwy iddynt hwy eu hunain. Rhoddwyd enghraifft bod rhywun ag anabledd yn fwy hyderus wrth ymgysylltu ag Aelod o'r Senedd sydd hefyd â'r anabledd hwnnw oherwydd y disgwyliad bod yr Aelod yn debygol o fod â dealltwriaeth naturiol o bryderon ei etholwr.

## Cwestiwn 2: Beth yw'r prif resymau nad yw pobl o gefndiroedd amrywiol yn dewis sefyll yn etholiadau'r Senedd?

### Dewis ymgeiswyr

**11.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y bydd unrhyw un sy'n ceisio mynd i fyd gwleidyddiaeth plaid ac sy'n gobeithio sefyll fel ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd yn wynebu rhwystrau sylweddol, boed a yw o grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ai peidio. Yr her i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yw y gallant wynebu rhwystrau ychwanegol y mae'n anoddach fyth eu goresgyn. Un ffordd o ymdrin â'r pryder hwn yw wrth ddewis ymgeiswyr; dywedodd rhai cyfranogwyr y dylai ffocws y dewis fod ar sgiliau, nid archwilio diddordeb rhywun yn y rôl yn unig. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod angen perswadio pleidiau bod gan bobl y proffil cywir i gael eu hethol, a gall canfyddiad fod yn rhwystr mawr i ddewis ymgeisydd.

**12.** Dadleuodd llawer o gyfranogwyr y dylai'r cyfrifoldeb fod ar bleidiau gwleidyddol yng Nghymru i fynd at grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn hytrach nag aros i bobl ddod atynt hwy. Dadleuwyd bod yn rhaid i bleidiau ddangos eu bod am i bobl o grwpiau lleiafrifol gymryd rhan weithredol yn y broses wleidyddol. Dywedodd rhai cyfranogwyr nad yw llawer o bobl yn cael profiad o wahaniaethu fel ymgeisydd oherwydd nad ydynt yn cymryd rhan neu'n ymgysylltu ddigon.

### Pobl ag anableddau

**13.** Trafododd y cyfranogwyr yr heriau y gall pobl anabl eu hwynebu wrth sefyll etholiad a gwasanaethu fel Aelod o'r Senedd. Awgrymodd un cyfranogwr y gall fod yn anodd i bobl â rhai anableddau gymryd rhan yng ngweithgarwch traddodiadol plaid wleidyddol megis dosbarthu taflennu, canfasio o ddrws i ddrws neu ganfasio ar y ffôn. At hynny, awgrymwyd nad yw pleidiau gwleidyddol yn gyffredinol yn gefnogol i bobl ag anableddau sy'n ceisio ymgeisyddiaeth ac y bydd y rhai a gaiff eu dewis a'u hethol yn aml yn gwneud yn fach o'u hanabledd.

**14.** Roedd nifer o gyfranogwyr o'r farn bod cyflwyno cronfa mynediad i swyddi etholedig ar gyfer etholiadau’r Senedd yn hanfodol er mwyn galluogi pobl ag anableddau i gymryd rhan lawn mewn ymgyrchoedd ac etholiadau. Byddai cronfa mynediad i swyddi yn galluogi ymgeisydd ag anableddau i gael mynediad at gymorth ariannol i helpu gyda chostau ymgyrchu ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i'w anabledd. Arsylwyd bod sefydlu cronfa debyg ar gyfer etholiadau lleol yn yr Alban wedi bod o fudd mawr i ymgeiswyr anabl.

**15.** Codwyd pryderon ynghylch y goblygiadau y gallai rhai Aelodau anabl o'r Senedd gael profiad ohonynt pe baent yn gweithio'n amser llawn. Tynnwyd sylw at y rhyngweithio rhwng y lefelau tâl a'r buddion a'r hawliau y mae rhai pobl ag anableddau’n eu cael fel y math o rwystr na fydd llunwyr polisi yn ei nodi ar unwaith wrth geisio annog ystod fwy cynrychioliadol o ymgeiswyr.

**16.** Mynegwyd pryderon y gall fod angen amser i ffwrdd o'u rôl ar bobl ag anableddau cudd, ac y gallai fod yn anodd esbonio hynny i’r etholwyr. Yn yr un modd, gall y rhai â phroblemau iechyd meddwl hefyd wynebu diffyg empathi canfyddedig neu wirioneddol gan y cyhoedd os oes arnynt angen amser i ffwrdd o'u cyfrifoldebau cyhoeddus neu gymorth ychwanegol. Roedd cyfranogwyr yn pryderu y gallai ymgeiswyr ac Aelodau o'r Senedd deimlo gorfodaeth i ddatgelu mwy o wybodaeth nag yr hoffent am anableddau neu gyflyrau iechyd penodol.

## Pobl o'r gymuned LHDT

**17.** Trafododd cyfranogwyr eraill y rhwystrau y mae pobl o'r gymuned LHDT yn eu hwynebu. Arsylwyd nad yw rhywioldeb, rhywedd a hunaniaeth bob amser yn weladwy, felly mae angen canolbwyntio ar wneud y Senedd yn gynhwysol. Gwnaed y pwynt bod pa mor gynhwysol a chroesawgar yw sefydliad, yn y pen draw, yn gynnyrch ei ddiwylliant—byddai profiad Aelod o'r Senedd o'r gymuned LHDT, felly, yn cael ei lywio gan yr agweddau cyffredinol yn y Senedd.

**18.** Yng nghyd-destun bywyd gwaith Aelod o'r Senedd arsylwyd y gellid cael diffyg cyfatebiaeth sylweddol rhwng mynegiant rhywedd unigolyn a disgwyliadau neu godau gwisg y rôl, ac y gallai'r math hwn o rwystr diwylliannol a sefydliadol gymell rhai aelodau o'r gymuned LHDT i beidio â sefyll etholiad os oeddent yn teimlo na fyddai modd iddynt fod eu hunain yn y rôl.

## Cymunedau BAME

**19.** Nododd cyfranogwyr mai un rhwystr y gallai pobl o rai cymunedau BAME gael profiad ohono yw'r ymdeimlad, pe baent yn cael eu hethol i'r Senedd, y byddent yn gyfrifol am fod *yr un* i gynrychioli eu cymuned. Gall pryderon gynnwys

teimlo'r angen i 'brofi eu hunain' yn eu cymuned a sicrhau eu bod yn gallu cynrychioli eu cymuned yn llawn.

**20.** Arsylwodd cyfranogwyr eraill y bydd profiad ymgeiswyr ac Aelodau etholedig yn wahanol ar draws y cymunedau gwahanol yng Nghymru. Y rheswm dros hyn yw y gall fod amrywiad sylweddol yn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o wleidyddiaeth a'r Senedd mewn cymunedau gwahanol.

## Trosedd gasineb a cham-drin ar-lein

**21.** Mynegwyd pryderon bod pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anableddau ac aelodau o'r gymuned LHDT, yn fwy tebygol o gael profiad o drosedd gasineb ac y byddai hyn yn gwaethygu drwy ymgeisio am swydd gyhoeddus. Nododd rhai cyfranogwyr y bydd pobl sy'n anghytuno â gwleidyddiaeth unigolyn yn targedu ei hunaniaeth bersonol a bod plismona'n gyfyngedig oherwydd dadl ynghylch rhyddid i lefaru yn erbyn iaith casineb. Gall rhyngblethedd hunaniaeth hefyd effeithio ar y ffordd y caiff unigolion eu targedu a maint y rhwystr—er enghraifft, ystyrir bod menywod o gymunedau BAME, yn enwedig, yn destun camdriniaeth ar-lein.

## Modelau rôl

**22.** Roedd llawer o gyfranogwyr yn teimlo y gallai annog pobl o bob rhan o'r gymdeithas i gymryd rhan gael ei gymell gan bresenoldeb modelau rôl proffil uchel yn y Senedd. Dim ond pan fydd pobl yn gweld rhywun fel hwy eu hunain yn ennill etholiad i'r Senedd ac yn gweithio fel Aelod y bydd rhai pobl yn teimlo ei fod yn opsiwn realistig iddynt.

**23.** Dywedodd y cyfranogwyr fod cynlluniau mentora Chwarae Teg a’r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod wedi llwyddo i wneud i ystod ehangach o fenywod deimlo eu bod yn gallu sefyll etholiad. Yn benodol, pwysleisiwyd pwysigrwydd mentora i fenywod o gymunedau BAME. Ychwanegwyd nad mater o hyder yw cyfranogi, ond sicrhau bod gan fenywod yr adnoddau i gymryd rhan.

**24.** Nododd rhai cyfranogwyr y bydd yn bwysig herio ystrydeb a chanfyddiadau Aelod 'nodweddiadol' o'r Senedd er mwyn i bobl o gefndiroedd mwy amrywiol deimlo eu bod yn cael eu hannog i sefyll etholiad. Mae'r ystrydeb yn aml yn cynnwys cefndir addysgol neu normau ymddygiad y mae rhai pobl o’r farn eu bod yn ddieithr neu'n anodd eu bodloni. Gall rhwystrau gael eu creu gan ganfyddiadau pobl o beth yw Aelod os na fydd y Senedd yn cymryd camau i ddangos ei bod yn gynhwysol ac yn croesawu amrywiaeth.

**25.** Arsylwodd rhai cyfranogwyr yn y drafodaeth y gall pobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol gael profiad o rwystrau ar sail rhagdybiaeth o sut y dylai Aelod o'r Senedd fod. Yn yr un modd, mynegwyd rhywfaint o bryder bod disgwyliad canfyddedig y dylai'r Aelodau siarad Cymraeg ac y byddai diffyg sgiliau Cymraeg yn anfantais. Gall lefelau sgiliau Cymraeg amrywio ar draws cymunedau gwahanol neu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan waethygu ymhellach y rhwystrau y gallai pobl â'r hunaniaethau hynny eu hwynebu.

### Bywyd fel Aelod o'r Senedd

**26.** Nododd nifer o gyfranogwyr nad yw Aelodau o'r Senedd mewn amgylchedd sy'n annog ffordd o weithio sy'n ystyriol o deuluoedd. Credwyd bod cyfarfodydd hwyr, llawer iawn o deithio, treulio amser oddi cartref a nifer sylweddol o gyfrifoldebau ychwanegol, megis cymryd rhan mewn digwyddiadau plaid yn rhwystrau i bobl â theuluoedd a chyfrifoldebau gofalu. Ystyriwyd bod ymateb y cyhoedd a'r cyfryngau, a oedd yn negyddol i raddau helaeth, i gynnig y Bwrdd Taliadau Annibynnol y dylai cymorth ychwanegol fod ar gael i Aelodau â chyfrifoldebau gofalu yn enghraifft o amgylchedd gwleidyddol ehangach nad yw'n deall arwyddocâd cynnig cymorth i alluogi pobl sydd â chyfrifoldebau o'r fath i ymgeisio am swydd etholedig a'i dal.

**27.** Yn yr un modd, tynnwyd sylw at raddau'r gamdriniaeth y gall gwleidyddion a'u teuluoedd ei hwynebu'n gyhoeddus ac, yn arbennig, ar-lein fel baich annioddefol o ddod yn Aelod o'r Senedd.

## Cwestiwn 3: Pa fesurau deddfwriaethol a gwirfoddol penodol y dylid eu hystyried er mwyn annog amrywiaeth yn y Senedd?

### Cwotâu etholiadol

**28.** Dadleuodd rhai cyfranogwyr yn gryf o blaid cwotâu i annog Senedd fwy amrywiol. Er yr ystyrir ei fod yn erfyn di-awch, dywedwyd y gallai cwotâu sicrhau newid yn gyflym. Roedd rhai cyfranogwyr yn ffafrio cwotâu rhyw, a dadleuodd eraill y dylid dylunio cwotâu i adlewyrchu rhyngblethedd hunaniaeth. Awgrymwyd hefyd y gellid cyflwyno cwotâu gyda'r ddealltwriaeth y gallent fod yn fesur dros dro wedi'i ddylunio i fynd i'r afael ag anghydbwysedd hanesyddol. Dadleuodd rhai cyfranogwyr y byddai angen sancsiynau a chymhellion i wneud cwotâu'n effeithiol.

**29.** Dywedodd un cyfranogwr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o integreiddio cwotâu â'r system etholiadol fyddai i Gymru fabwysiadu'r ffurf Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau'r Senedd.

Dywedodd cyfranogwr arall y gallai'r system bresennol o ethol Aelodau rhanbarthol ychwanegol gael ei haddasu at ddibenion gwahanol i sicrhau canlyniadau etholiadol teg—er enghraifft, gellid defnyddio'r rhestr ranbarthol i unioni unrhyw anghydbwysedd rhwng y rhywiau sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i ethol Aelodau etholaethol. Dadleuodd rhai cyfranogwyr na fydd systemau etholiadol, ynddynt eu hunain, yn cyflawni cydraddoldeb ac y dylai mesurau penodol eraill, megis cwotâu, barhau i fod y flaenoriaeth.

**30.** Un pryder ynghylch defnyddio cwotâu oedd y risg y gallai defnyddio cwota ddod â phroffil uwch i agwedd ar hunaniaeth ymgeisydd nag y byddai'n gyffyrddus ag ef, gan greu rhwystr i gyfranogiad. Tynnwyd sylw at y dull o ethol Senedd Ieuenctid Cymru, lle y mae 40 aelod yn cael eu hethol i gynrychioli etholaethau ac y mae 20 aelod yn cael eu penodi gan sefydliadau partner sy'n eiriol dros grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, er bod rhai cyfranogwyr wedi awgrymu y gallai hyn arwain at ganfyddiadau o symboleiddiaeth.

**31.** Mynegwyd rhai pryderon y gallai fod adlach gyhoeddus yn erbyn Aelodau a etholir drwy gwotâu ac y gallai greu mathau penodol o Aelodau cwota a rhai nad ydynt wedi'u hethol drwy gwota. Fodd bynnag, dywedodd cyfranogwyr eraill y byddai'r adlach yn gyfyngedig ac y byddai'n gostegu ar ôl i gysyniad cwotâu ddod yn sefydledig. Yn yr un modd, gallai dylunio cwotâu fod yn heriol gan y gall anabledd, er enghraifft, newid neu ddatblygu ar gyfnodau gwahanol mewn bywyd a gall fod yn anodd ei asesu hefyd.

**32.** Codwyd amheuaeth ynghylch moeseg ethol gwleidyddion o bleidiau gwleidyddol ar sail cwotâu gan rai cyfranogwyr a oedd yn teimlo bod problemau sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu'n cael eu gwaethygu gan gamau gweithredu a pholisïau'r pleidiau hynny.

## Cyhoeddi data amrywiaeth ymgeiswyr

**33.** Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod cyhoeddi data amrywiaeth ymgeiswyr ac Aelodau'n arwyddocaol, ar y sail bod deall amrywiaeth ymgeiswyr ac Aelodau o'r Senedd, ar hyn o bryd, yn dibynnu ar hunan-nodi. Mae risg y gellir gwneud rhagdybiaethau anghywir am nodweddion Aelodau, ac awgrymodd cyfranogwyr y gallai cofnodi data amrywiaeth sy'n ymwneud ag Aelodau'n gywir fod yn gam cymharol gyflym ymlaen o ran sefydlu pa mor amrywiol, neu fel arall, yw'r Senedd mewn gwirionedd.

**34.** Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i'r Pwyllgor bwysleisio pwysigrwydd sefydlu set ddata i helpu i ddeall pa mor amrywiol yw ymgeiswyr ac Aelodau o'r Senedd. Roedd rhai o'r farn bod casglu a chyhoeddi data yn fan cychwyn, yn hytrach na

diwedd ynddo'i hun, ond y byddai'n fesur cynnydd defnyddiol. Cytunodd nifer o gyfranogwyr y gall 'ffactor embaras' gymell pleidiau i ddewis cymysgedd mwy amrywiol o ymgeiswyr.

**35.** Trafodwyd a ddylai casglu a chyhoeddi data fod yn wirfoddol neu a ddylid deddfu ar ei gyfer. Nododd cyfranogwyr y gallai pleidiau gwleidyddol gasglu a chyhoeddi data drwy ddull gwirfoddol, ac y gallai Comisiwn y Senedd weithredu mesurau gwirfoddol i ddeall amrywiaeth yr Aelodau heb orfod dibynnu ar ddull deddfwriaethol. Fodd bynnag, cydnabu cyfranogwyr na ddylai system o gofnodi data amrywiaeth—drwy ddull deddfwriaethol neu wirfoddol, ac ar gyfer ymgeiswyr neu Aelodau—orfodi pobl i roi gwybodaeth. Arsylwodd rhai cyfranogwyr y gellid defnyddio'r wybodaeth a roddir mewn samplau bach i adnabod unigolyn. Pe na bai ymgeiswyr neu Aelodau'n ymddiried yn y ffordd roedd y data'n cael eu casglu, eu dal a'u defnyddio, gallai hyn danseilio eu cywirdeb a'u heffeithiolrwydd.

## Rhannu swyddi

**36.** Roedd llawer o gyfranogwyr o'r farn bod rhannu swyddi gan Aelodau o'r Senedd yn fenter a allai olygu bod cael eu hethol i'r Senedd yn opsiwn mwy hyfyw i ystod fwy o ymgeiswyr. Credwyd bod pobl ag anableddau a chyfrifoldebau gofalu yn arbennig o debygol o elwa ar yr opsiwn i rannu swydd. Fodd bynnag, nodwyd na ellir ystyried atebolrwydd i etholwyr yn rhwymedigaeth ran-amser ac y byddai'n rhaid lliniaru'r risg bod rhannu swydd yn newid y sefyllfa fel bod dau bartner yn gweithio 100 y cant o'r amser.

## Newid diwylliannol

**37.** Dadleuodd rhai cyfranogwyr na fyddai cyflwyno mesurau gwirfoddol neu ddeddfwriaethol i wella amrywiaeth, o reidrwydd, yn cymell newid diwylliant mewn pleidiau gwleidyddol. Roedd cyfranogwyr eraill yn teimlo y gallai mesurau i wneud cynrychiolaeth yn fwy amrywiol fynd yn groes i ethos pleidiau gwleidyddol, ac y gallai presenoldeb pobl o rai grwpiau lleiafrifol gael ei ystyried yn symboleiddiaeth gan bobl yn eu pleidiau eu hunain.

**38.** Roedd eraill o'r farn bod mesurau fel y gofyniad i gyhoeddi data amrywiaeth fel dull a fydd yn galluogi pobl i feirniadu'r pleidiau nad ystyrir eu bod yn gynrychioliadol ac a fyddai'n helpu i adlewyrchu gwerthoedd pleidiau gwleidyddol a thynnu sylw atynt. Dywedodd un cyfranogwr fod y dull a ddilynwyd o ran amrywiaeth eu hymgeiswyr gan bleidiau gwleidyddol yn gynhenid wleidyddol ac y gallai gweithredu cwotâu guddio i ba raddau y mae pleidiau wir yn credu mewn cyflawni cynrychiolaeth amrywiol. Dadleuwyd efallai na fydd y pleidiau sydd wedi ymrwymo i'r agenda'n cael budd etholiadol neu wleidyddol

o'u hymrwymiad gwirioneddol i wneud eu pleidiau'n fwy cynrychioliadol os gorfodir pob plaid i gyflwyno cymysgedd amrywiol o ymgeiswyr.

**39.** Trafodwyd a ddylid gosod rhwymedigaeth statudol ar bleidiau i'w gwneud yn ofynnol iddynt baratoi a chyhoeddi eu strategaethau eu hunain i amrywio eu hymgeiswyr. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod hyn yn ddull mwy hyblyg a chymesur a fyddai'n galluogi pleidiau i nodi a rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael â'u hamgylchiadau penodol ac a fyddai'n osgoi rhai o'r heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â dull cyffredinol. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch a fyddai gosod dyletswydd o'r fath ar bleidiau gwleidyddol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ynghylch sut y byddai pleidiau'n cael eu dwyn i gyfrif am gyflawni eu strategaethau, ac ynghylch sut y byddai canlyniadau'n cael eu mesur. Awgrymodd un cyfranogwr y gallai Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wasanaethu fel model i'r pleidiau gwleidyddol ei gopïo.

**40.** Dywedodd rhai cyfranogwyr fod angen gwybodaeth ac addysg wleidyddol mewn cymunedau lleiafrifol i helpu pobl i gymryd rhan yn y broses wleidyddol. Nodwyd bod Operation Black Vote wedi llwyddo i helpu pobl o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig i lywio gwleidyddiaeth plaid a'u hannog i gymryd rhan yn y broses wleidyddol.